57- 1.35

CAN NEWYDD,

&c. &c. &c.

CAN NEWYDD,

O. BERTHYNAS I'R

RHYFEL A'R *TERFYSG*

SYDD Y PRYD HYN

TROS

RAN FAWR O'R BYD.

Gan JOHN MORGANS.

Meſur—MARGARET FWYN.

LLUNDAIN:

ARGRAFFWYD, AC AR WERTH, GAN

VAUGHAN GRIFFITHS,

(No. 22,)

VERE-STREET, CLARE-MARKET, 1794.

Lle argraffir pob Iaith gyda Gofal neillduol.

CAN NEWYDD,

O BERTHYNAS I'R

RHYFEL, &c.

PA beth yw'r terfyſg ſy' ar y llawr
Yn aflonyddu'r ddaear fawr,
Sôn am ryfelodd ſydd yn awr,
Rhai creulon iawn y'mhell!
Byddino maent o hyd achlân,
Dan ennyn beunydd fwy o dân,
O hyll ddigllonedd giaidd gân,
Heb argoel grân fod gwell.

Cenfigen, afradlondeb, pyd,
Anghariad mawr a balchder byd,
A rhei'ny wedi d'od ynghyd,
Yn gwaeddu'n uchel iawn:
Amryw ddialedd ddaeth i lawr
I loſgi a ffuro Ewrop fawr
Oddiwrth y ſothach ſydd yn awr;
Anmhuredd mawr yn llawn.

Mae uchelwyr byd a'r gwerin certh
Mewn hyll bechodau'n myn'd yn ſerth,
A gwrthod yr efengyl ferth,
Sy'n gwaeddu'n uchel iawn:
O dowch a throwch, ynfydion rai,
A'r gwatwarwyr, rhag ofn trai,
Gadawed pob rhyw radd eu bai,
Cyn del dialedd llawn.

'Rwy'n ofni bod rhyw gwyn, yn wir,
Rhwng yr Arglwydd Dduw a'n tir,
Ac y tery cyn bo hir
Drwm ergyd ar ein caer!
Am hynny, anwyl Iſrael, clyw,
Bydd barod iawn i gwrdd a'th Duw,
Efe ei hun dy frenin yw,
Gweddia arno'n daer.

Doed pob trigolion gwlad a thre'
I difarhau fel Ninife;
Can's pwy a wyr na ddenfyn ê
Ryw nodded etto i lawr:
Er dued yw'r cymylau draw,
A'r ſwn, a'r terfyſg mawr, a'r braw,
Gobeithio bod y dydd ger llaw
Y tywyna'r nefol wawr.

Pabyddiaeth

Pabyddiaeth greulon 'n awr y fydd
Yn colli tir o ddydd i ddydd;
Pob Criftion byw na fydded brudd;
O gwel fath arwydd glân;
Canys mae'n rhaid i Babel fawr
Yn ddychrynedig gwympo i'r llawr;
Pryfyred Duw y ddedwydd awr
Yr el hi lawr yn lân.

Pryd hyn llewyrcha'r hyfryd wawr
Y gorfoledda nef a llawr,
Wrth weled barnu'r buttain fawr,
A'i dial 'n awr yn bod.
Breninodd daear mawr eu bri,
Yn wylo wrth wel'd ei dial hi,
A'r feintiau'n gorfoleddu fy,
Ac ufudd roddi clôd.

Rhyw angel cryf a ddaeth o'r nef,
Dan grochfloeddio ag uchel lef;
Syrthioedd Babel fawr, medd ef,
Hi aeth yn dref i ddiawl.
Cadwriaeth Sattan tua ei was,
A ffob aderyn aflan cas,
A yfodd win ei goflyd flas
A droir i maes o'i hawl.

A chwithau'r dynion gafodd râd,
O dowch yn llwyr o honi yn gâd,
Rhag eich colli wrth brofi brâd
A'i dial addas hi.
A ffoi fel y llofryddion gynt,
Yn mrig y coed mae ſwn y gwynt,
I'r noddfa 'r elo pawb a'r hynt,
Fel hyn bo'n helynt ni.

I'r ddinas lân ſy a'i muriau gyd
Yn ddiyſgogiad er y llid,
Sy' gan elynol ryw trwy'r byd;
Hi bery o hyd yr un.
Mae pawb ſy'n byw'n y ddinas hon
Yn anorchfygol oll o'u bron,
Mae ganddynt achos fod yn llon
Yn mhob helbylon blin.

Rhaid ydyw i ryfelodd fod,
A ſon am ryfel, garw nôd,
Cyn bo diwedd mawr y rhod,
A dydd gollyngdod mawr.
Er goddef galar dros brydnawn,
Fe'n gwneir ni oll yn foddlon iawn,
Rhyw amſer gorfoleddus cawn,
A bore llawen wawr.

Yn

Yn awr, tra paro goleu'r dydd,
Gweddiwn oll a chalon brudd,
Am ini gael ein rhoddi'n rhydd,
Rhyw hyfryd ddydd a ddaw.
Mae melus ſwn rhyw dyrfa fawr
Yn ſeinio yn fy nghluſtiau 'n awr,
Ar fyr diſgleiria'r hyfryd wawr,
Rhyw newydd mawr a ddaw.

Cenedlodd pell o eitha'r byd,
Iddewon hen a ddo'nt ynghyd,
Pob lliw, pob iaith, fydd o'r un fryd,
O barthau'r byd ſy bell:
I addoli yr un Brenin mawr,
Cynnaliwr nefodd faith a'r llawr,
'Dd wy 'n diſgwyl yma gael yn awr,
Un newydd mawr fo gwell.

Bod llwyddiant i'r Efengyl lân,
Dan orchfygu a myn'd achlan,
Er gwaethaf dwfr a ffoethder tan
Hi garia'n lan y dydd.
Y gareg aiff yn fynydd mawr,
Nes llenwi conglau daear fawr,
Maluria hi'r aur, dyſgleiria ei gwawr,
Haiarn, arian, pres a ffridd.

Ac yno'r aiff cenedlodd byd,
I dy'r Arglwydd yn un fryd,
A llechant yn ei fonwes glyd,
A gwyn eu byd hwy'n awr.
Fe dorir y cleddyfau'n wir
I wneuthur ſychau i rwygo'r tir,
A'r waew-ffon yn bladur hir,
I dorri'r gwair i lawr.

O Sion draw y rhua ef,
O Gaerſalem y rhydd ei lef,
Y Nefodd fawr a'r ddaear gref,
A grynant oll o'u bron:
Ond ef, yr Arglwydd Dduw dilyth,
Fydd gobaith ei holl weiſion byth,
Ac ynddo ef, gadarnaf nyth,
Bydd meibion Iſrael lon.

Meddiannwch eich eneidiau glân,
Yn eich amynedd, fawr a mân,
Nag ofnwch derfyſg dwfr na thân,
Nag unrhyw daran gref;
Ond rhedwn oll i hollti'r graig,
Can's ffyddlon iawn yw'r Oen i'r wraig,
Ni ad e'i drygu gan un ddraig;
Cadarnaf noddfa ef.

Yn

Yn y ſefyllfa roddes Duw,
O fewn terfyſglyd fyd in' fyw,
Byddwn gyfiawn o bob rhyw,
A ffyddlawn yn ein dydd.
Ymddaroſtynged pawb trwy'n gwlad,
I bob dynol ordinhâd,
A rhoddwn barch, bydd er lleſhâd,
I'r llywodraeth ſydd.

Mae Duw'n 'wyllyſio îs y rhod,
In' rodio'n addas er ei glod,
I oſtegu'r terfyſg ſy yma'n bod,
Trwy anwybodaeth mawr;
In' barchu a rhoi pawb o'n blaen,
A charu y brawdoliaeth glân:
Ofnwch Dduw, rhowch barch ar gân,
I'r Pen ſy' yma 'n awr.

Duw gadwo'n Brenin rhag pob brad,
Na chaffo dyn mewn tref na gwlad,
Wneuthur iddo ond lleſhâd,
Ef tan ein TAD fo'n ben;
A'i gynhyſgaethu â rhadau nef,
Y gaffo pawb o'i deulu ef,
Mi wedaf innau ag uchel lef,
AMEN, AMEN, AMEN.

DIWEDD.